| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD: | **6 MEHEFIN 2017** |
| TEITL: | **CYFRIFON TERFYNOL 2016/17 – ALLDRO REFENIW** |
| PWRPAS: | **EGLURO A CHRAFFU'R SEFYLLFA ARIANNOL TERFYNOL 2016/17** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2016/17, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau.** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Mae'r adroddiad gerbron heddiw, sef yr adolygiad cyllideb "alldro", yn egluro sefyllfa terfynol 2016/17 ac yn dangos y darlun fesul adran. Y ffigyrau yma fydd yn sail i'r datganiadau statudol a gyflwynir i gyfarfod 13 Gorffennaf o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

**2.** Y drefn yn arferol yw ein bod yn cyflwyno'r adroddiad Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 6 Mehefin o'r Cabinet sydd ar y tudalennau dilynol.

**3.** Nodaf fod rhan 5 ac Atodiad 3 i'r adroddiad yma'n delio hefyd gyda'r adolygiad o gronfeydd a darpariaethau'r Cyngor.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, gan ystyried cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.